4.18

# DIWYGIAD A CHYSUR:

## YMDRECH A LLWYDDIANT

NEU

## *Annerchiad Caredig*

I

## WEITHWYR Y DYWYSOGAETH.

1 Rhoddwch sylw, weithwyr Cymru,
   Teimlad drosoch ynof sydd;
'Ry'ch yn ddosparth buddiol pwysig,
   Amlwg hyny nos a dydd;
Chwi sydd yn gwrteithio'r tiroedd,
   Chwi sy'n codi'r palas gwych,
Trwm fod llawer iawn o honoch,
   Trwy ein gwlad yn wael eich drych.

2 Hyfryd fyddai'ch bod yn gyson,
   Yn mwynhau ymgeledd llawn,
A'ch teuluoedd yr un ffynyd,
   Yn gysurus fore a nawn;
Eich rhai bychain yn cael addysg
   Buddiol, helaeth, fore 'u hoes,
Hyn a'u cynnorthwyai i ddianc,
   Ar eu taith rhag llawer croes.

3 Ond in' sylwi ar sefyllfa
   Gweithwyr lawer trwy ein gwlad,
Gwelwn blant yn wael eu cyflwr,
   Gwael yw golwg mam a thad;
Mae anneddau'n ddadfeiliedig,
   Tyllog, budron, ffiaidd iawn,
Llwyr anghryno yn y boreu:
   Nid y'nt fawr yn well brydnhawn.

4 Gellid barnu na red dwfr
   O fewn milltir fawr, yn wir,

Y205220133 [1853.]

I'r anneddau rhyfedd hyny
  Sydd yn aml yn ein tir;
Neu nad ydyw y preswylwyr
  Yn gwel'd eisiau'i arfer e',
Gwerthfawr iawn, beth bynag ydyw,
  Teimlir hyn trwy wlad a thre'.

5 Nid oes trefn ar yr ymborth,
  Nid oes gofal wrth ei drin;
Pan b'o natur yn lluddedig,
  Pan y byddo'r corph yn flin,
Dichon cyfyd cweryl enbyd,
  Nes bo'r gwr a'r wraig yn flam;
Ac na byddo un o honynt
  Ar ei ddiwedd yn ddinam.

6 Penderfyna'r gwr fyn'd allan
  I dafarndy sydd gerllaw,
Penderfyna'r wraig ymddial,
  Er nad yw yn llwyr ddifraw;
Yn ei mynwes gyffroedig
  D'wed, wrth feddwl am ei gwr,
"Os myn ef ddiodydd cryfion,
Ni wnaf finau fyw ar ddwr."

7 Wrth wneud felly amryw weithiau,
  Megir blys—daw hwnw'n gry';
Teimlir hyny, er mawr ofid
  Gan drigolion llawer tŷ;
Daw tylodi, fel gwr arfog,
  A'i gymdeithion gydag e',
Mewn i'r annedd—yno llechant
  Llwyr annedwydd gwnant y lle.

8 Beia'r gwr a'r wraig eu gilydd,
  Beia'r naill y llall yn llym,
Ac efallai, taflant bethau
  At eu gilydd, gyda grym;
Heb ystyried eu bod felly
  'N gwneud y drwg yn waeth bob dydd,
Ac nad oes un gobaith felly
  O'u gofidiau dd'od yn rhydd.

9 Pan bo'r amser yn llwyddianus,
Pan y b'o cyflogau da;
O ! ystyriwch yn ddifrifol
Na bydd hi o hyd yn ha,'
Dichon daw tywyllnos cystudd,
Neu y gwelwch ddiffyg gwaith,
Ac y pery'r tymor pruddaidd
Pan y delo, amser maith.

10 Dichon gwelwch auaf henaint,
Pan b'o natur oll yn wan,
Pan b'o briw trwy'r holl gymalau,
Poen trwy'r corph yn mhob ryw ran;
Teimlir angen dillad cynes,
A thynerwch lawer pryd,
Tra yn ieuainc, iach, a hwylus,
Cedwch hyn mewn cof o hyd.

11 Rho'wch eich troed ar lwybr cysur,
Trwy gymeryd Iesu Grist,
Yn Waredwr, yn Arweinydd,
Er gochelyd uffern drist,
Yna rhodiwch ffordd y bywyd
*Ffordd santeiddrwydd* ydyw hon;
Hyn fydd godiad i'ch cymeriad,
Dwg wir heddwch dan eich bron.

12 Dylid cadw 'mhell o lwybrau,
Llithrig pechod, yma a thraw,
Hudoliaethus yw ei wenau,
Ond mae'i faglau ef gerllaw;
Er mor deg a swynol ydyw,
Brathu'r galon wna 'nol hyn :
Weithwyr, cedwch o'i afaelion,
Cedwch oll, trwy fro a bryn.

13 Wrth ymadael â phleserau
Pechod, o bob rhyw a gradd,
Ni wnewch ddim yn wir ond 'mado,
A phleserau sydd yn lladd
Corph ac enaid, ac yn difa
Pob gwir gysur ar y llawr,

Ac yn dwyn i'r ail farwolaeth,
  Yn y trag'wyddoldeb mawr.

14 Ond wrth ddilyn crefydd Iesu,
  Cewch bleserau o'r iawn ryw,
" Mae ei ffyrdd yn ffyrdd hyfrydwch,"
  Hi a rydd in' heddwch Duw;
Heddwch hefyd yn y fynwes,
  Na all bechod byth ei roi;
Heddwch na wna'n llwyr ein gadael,
  Er i wychder daear ffoi.

15 Byddwch ddiwyd gyda'ch gorchwyl,
  Diwyd gyda phethau Duw,
Rhyfyg fyddai dysgwyl cysur,
  Heb ddiwydrwydd tra bo'ch byw;
Ond ymostwng i drefniadau,
  Manol, da Tywysog ne',
Cawn gynhaliaeth trwy ein bywyd
  Os gofalwn gadw'n lle.

16 O ymuned teulu'r ddaear,
  O ymdrechwn oll i gyd,
I ddarostwng llygredigaeth,
  Ar santeiddrwydd rho'wn ein bryd;
Rhodded Tad y trugareddau,
  In' ei fendith lawn o hyd,
Llwyddiant felly a'n dilyna,
  Cysur gawn tra yn y byd.

17 Os wrth ddilyn ffordd dyledswydd,
  Daw trallodau i ein rhan,
Gallwn ddysgwyl nodded dwyfol,
  Er ein dal o hyd i'r lan;
Hyd nes dianc o afaelion
  Pechod a blinderau'r llawr;
A chael rhan o'r gwynfyd nefol,
  Byth yn nghwmni'n Harglwydd mawr.

YMWELYDD.

---

*E. Griffiths, Argraffydd, Abertawy.*

the printer